*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 143(3) a (4)(b) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U  D R A F F T

# 2026 Rhif

# Rheoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2026* |

*Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 143(3) and (4)(b) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (asc 1).*

D R A F T  W E L S H  S T A T U T O R Y  I N S T R U M E N T S

# 2026 No.

# The Higher Education (Fee Limits) (Wales) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | ***** |
| *Coming into force* | *1 March 2026* |

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 143(3) a (4)(b) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U  D R A F F T

# 2026 Rhif

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r terfynau ffioedd uchaf sy'n gymwys at ddibenion adran 46(6) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022"). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu, pan fo ffioedd yn cael eu talu i berson heblaw darparwr sydd wedi ei gofrestru â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn"), fod y ffioedd hynny i'w trin fel pe baent yn cael eu talu i'r darparwr cofrestredig.

Mae adran 32(1) o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn osod amod terfyn ffioedd ar gofrestriad darparwyr addysg drydyddol sy'n dod o fewn categori terfyn ffioedd ac sy'n darparu cyrsiau cymhwysol neu y darperir cyrsiau cymhwysol ar eu rhan. Mae rheoliad 5 o Reoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y categori terfyn ffioedd at y dibenion hyn. Diffinnir "cwrs cymhwysol" yn adran 32(4) o Ddeddf 2022.

Mae adran 32(3) o Ddeddf 2022 yn darparu bod amod terfyn ffioedd yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu darparwr cofrestredig—

(a) meddu ar ddatganiad terfyn ffioedd sydd wedi ei gymeradwyo gan y Comisiwn o dan adran 47 o Ddeddf 2022, a

(b) sicrhau nad yw ffioedd cwrs sy'n daladwy i'r darparwr cofrestredig gan berson cymhwysol sy'n ymgymryd â chwrs cymhwysol yn fwy na'r ffi uchaf a bennir yn y datganiad terfyn ffioedd.

Diffinnir "person cymhwysol" yn adran 32(9) o Ddeddf 2022.

Mae adran 46 o Ddeddf 2022 yn nodi’r gofynion ar gyfer datganiad terfyn ffioedd ac mae adran 46(6) yn darparu, pan fo datganiad terfyn ffioedd yn pennu terfyn ffioedd mewn perthynas â blwyddyn a chwrs, na chaniateir i’r terfyn ffioedd hwnnw fynd uwchlaw y swm a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae rheoliad 2 yn pennu’r uchafswm a fydd yn gymwys. Mae rheoliadau 3, 4 a 5 yn pennu uchafsymiau is mewn cysylltiad â chyrsiau penodol.

Mae rheoliad 6 yn darparu, pan fo person yn darparu cwrs cymhwysol, neu ran o gwrs cymhwysol, ar ran darparwr cofrestredig, fod unrhyw daliadau a wneir i’r person hwnnw gan berson cymhwysol mewn cysylltiad â’r cwrs hwnnw i’w trin fel pe baent yn cael eu talu i’r darparwr cofrestredig, fel bod y terfynau ffioedd a nodir yn y Rheoliadau hyn yn gymwys o dan yr amgylchiadau hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd o dan adran 143(3) a (4)(b) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U   D R A F F T

# 2026 Rhif

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 32(11), 46(6) a 143(2) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 143(3) a (4)(b) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe’i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi, dod i rym a dehongli

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Mawrth 2026.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “Deddf 2022” yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

### Yr uchafswm penodedig

**2.** Yn ddarostyngedig i reoliadau 3, 4 a 5, yr uchafswm penodedig at ddibenion adran 46(6) o Ddeddf 2022 yw £9,790.

### Yr uchafswm penodedig ar gyfer blynyddoedd academaidd terfynol cyrsiau a blynyddoedd academaidd cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon

**3.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â’r canlynol—

(a) blwyddyn academaidd derfynol cwrs pan fo’n ofynnol i’r flwyddyn academaidd honno fel rheol gael ei chwblhau ar ôl llai na 15 wythnos o bresenoldeb;

(**1**) 2022 dsc 1.

(b) blwyddyn academaidd cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon (gan gynnwys cwrs o’r fath sy’n arwain at radd gyntaf) pryd y mae swm cyfanredol unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos.

(2) Pan fo’r rheoliad hwn yn gymwys, yr uchafswm penodedig at ddibenion adran 46(6) o Ddeddf 2022 yw £4,895.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr “hyfforddiant cychwynnol athrawon” yw hyfforddiant neu addysg sydd â’r nod o wneud personau, nad ydynt yn athrawon, yn addas i fod yn athrawon.

### Yr uchafswm penodedig ar gyfer cyrsiau rhyngosod

**4.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs rhyngosod—

(a) pryd y mae swm cyfanredol unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos, neu

(b) os yw swm cyfanredol unrhyw un neu ragor o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad (gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser), mewn cysylltiad â’r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol o’r cwrs, yn fwy na 30 o wythnosau.

(2) Pan fo’r rheoliad hwn yn gymwys, yr uchafswm penodedig at ddibenion adran 46(6) o Ddeddf 2022 yw £1,955.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i “cwrs rhyngosod” yr ystyr a roddir ym mharagraff 6(1) o Atodlen 1 i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**2**).

### Yr uchafswm penodedig ar gyfer astudio a lleoliadau gwaith dramor

**5.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs a ddarperir ar y cyd â sefydliad tramor—

(a) pryd y mae swm cyfanredol unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig yn llai na 10 wythnos, neu

(b) os yw swm cyfanredol unrhyw un neu ragor o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig (gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser), mewn cysylltiad â’r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol o’r cwrs, yn fwy na 30 o wythnosau.

(2) Pan fo’r rheoliad hwn yn gymwys, yr uchafswm penodedig at ddibenion adran 46(6) o Ddeddf 2022 yw £1,465.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr “sefydliad tramor” yw sefydliad heblaw sefydliad yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw.

### Ffioedd sy’n daladwy i bersonau eraill

**6.**—(1) At ddibenion adran 32(11) o Ddeddf 2022, pan fo person yn darparu cwrs cymhwysol, neu ran o gwrs cymhwysol, ar ran darparwr cofrestredig, mae unrhyw ffioedd sy’n daladwy i’r person hwnnw, mewn cysylltiad â pherson cymhwysol sy’n ymgymryd â’r cwrs cymhwysol, neu’r rhan honno o’r cwrs cymhwysol, i’w trin fel pe baent yn cael eu talu i’r darparwr cofrestredig at ddibenion adrannau 32(7) a 46 o Ddeddf 2022.

(2) Yn y rheoliad hwn—

(**2**) O.S. 2018/191 (Cy. 42) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(a) ystyr “darparwr cofrestredig” yw darparwr addysg drydyddol sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr a sefydlwyd ac a gynhelir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil o dan adran 25 o Ddeddf 2022;

(b) mae i “cwrs cymhwysol” yr ystyr a roddir yn adran 32(4) o Ddeddf 2022;

(c) mae i “person cymhwysol” yr ystyr a roddir yn adran 32(9) o Ddeddf 2022.

*Enw*
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru.
Dyddiad

*Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 143(3) and (4)(b) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (asc 1).*

DRAFT WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No.

# EDUCATION, WALES

# The Higher Education (Fee Limits) (Wales) Regulations 2026

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations specify the maximum fee limits that apply for the purposes of section 46(6) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (“the 2022 Act”). These Regulations also provide that where fees are paid to a person other than a provider registered with the Commission for Tertiary Education and Research (“the Commission”), those fees are to be treated as being paid to the registered provider.

Section 32(1) of the 2022 Act requires the Commission to impose a fee limit condition on the registration of tertiary education providers who fall within a fee limit category and provide qualifying courses or have qualifying courses provided on their behalf. Regulation 5 of the Commission for Tertiary Education and Research (Registration and De-registration of Tertiary Education Providers in Wales) Regulations 2024 makes provision for the fee limit category for these purposes. “Qualifying course” is defined in section 32(4) of the 2022 Act.

Section 32(3) of the 2022 Act provides that a fee limit condition requires the governing body of a registered provider to—

(a) have a fee limit statement approved by the Commission under section 47 of the 2022 Act, and

(b) secure that course fees payable to the registered provider by a qualifying person undertaking a qualifying course do not exceed the maximum fee specified in the fee limit statement.

“Qualifying person” is defined in section 32(9) of the 2022 Act.

Section 46 of the 2022 Act sets out the requirements of a fee limit statement and section 46(6) provides that where a fee limit statement specifies a fee limit in relation to a year and a course, that fee limit must not exceed the amount specified in regulations made by the Welsh Ministers. Regulation 2 specifies the maximum amount which will apply. Regulations 3, 4 and 5 specify lower maximum amounts in respect of certain courses.

Regulation 6 provides that where a person provides a qualifying course, or part of a qualifying course, on behalf of a registered provider, any payments made to that person by a qualifying person in respect of that course are to be treated as being paid to the registered provider, so that the fee limits set out in these Regulations apply in those circumstances.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

*Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 143(3) and (4)(b) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (asc 1).*

DRAFT WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No.

# EDUCATION, WALES

# The Higher Education (Fee Limits) (Wales) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *** |
| *Coming into force* | *1 March 2026* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 32(11), 46(6) and 143(2) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022([1]), make the following Regulations.

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 143(3) and (4)(b) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

### Title, coming into force and interpretation

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Higher Education (Fee Limits) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 March 2026.

(3) In these Regulations, "the 2022 Act" means the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022.

### Specified maximum amount

**2.** Subject to regulations 3, 4 and 5, the specified maximum amount for the purposes of section 46(6) of the 2022 Act is £9,790.

### Specified maximum amount for the final academic years of courses and academic years of courses of initial training of teachers

**3.**—(1) This regulation applies in respect of—

(a) the final academic year of a course where that academic year is normally required to be completed after less than 15 weeks' attendance;

([1]) 2022 asc 1.

(b) an academic year of a course for the initial training of teachers (including such a course leading to a first degree) during which any periods of full-time study are in aggregate less than 10 weeks.

(2) Where this regulation applies, the specified maximum amount for the purposes of section 46(6) of the 2022 Act is £4,895.

(3) In this regulation, "initial training of teachers" means training or education with the object of fitting persons who are not teachers, to be teachers.

**Specified maximum amount for sandwich courses**

**4.**—(1) This regulation applies in respect of an academic year of a sandwich course—

(a) during which any periods of full-time study are in aggregate less than 10 weeks, or

(b) if in respect of that academic year and any previous academic years of the course the aggregate of any one or more periods of attendance which are not periods of full-time study at the institution (disregarding intervening vacations) exceeds 30 weeks.

(2) Where this regulation applies, the specified maximum amount for the purposes of section 46(6) of the 2022 Act is £1,955.

(3) In this regulation, "sandwich course" has the meaning given in paragraph 6(1) of Schedule 1 to the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018(**2**).

**Specified maximum amount for study and work placements overseas**

**5.**—(1) This regulation applies in respect of an academic year of a course provided in conjunction with an overseas institution—

(a) during which any periods of full-time study at the institution in the United Kingdom are in aggregate less than 10 weeks, or

(b) if in respect of that academic year and any previous academic years of the course the aggregate of any one or more periods of attendance which are not periods of full-time study at the institution in the United Kingdom (disregarding intervening vacations) exceeds 30 weeks.

(2) Where this regulation applies, the specified maximum amount for the purposes of section 46(6) of the 2022 Act is £1,465.

(3) In this regulation, "overseas institution" means an institution other than one in Wales, England, Scotland, Northern Ireland, the Channel Islands or the Isle of Man.

**Fees payable to other persons**

**6.**—(1) For the purposes of section 32(11) of the 2022 Act, where a person provides a qualifying course, or part of a qualifying course, on behalf of a registered provider, any fees payable to that person, in connection with a qualifying person undertaking the qualifying course or that part of the qualifying course, are to be treated as being paid to the registered provider for the purposes of sections 32(7) and 46 of the 2022 Act.

(2) In this regulation—

(**2**) S.I. 2018/191 (W. 42) to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(a) “registered provider” means a tertiary education provider registered in the register established and maintained by the Commission for Tertiary Education and Research under section 25 of the 2022 Act;

(b) “qualifying course” has the meaning given in section 32(4) of the 2022 Act;

(c) “qualifying person” has the meaning given in section 32(9) of the 2022 Act.

*Name*
Minister for Further and Higher Education, under authority of the Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
Date